# CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR

# IS-DDEDDFAU AR GYFER RHEOLEIDDIO HARBWR PORTHCAWL A'R DYFROEDD CYSYLLTIEDIG

## Cynnwys


**Cymhwyso** .......... 2

**Dehongliad** .......... 2

**IS-DDEDDFAU A WNAED O DAN DDARPARIAETHAU DEDDF MORGANNWG GANOL 1987 MEWN PERTHYNAS Â HARBWR PORTHCAWL** .......... **4**

**RHAN I - RHEOLEIDDIO'R DEFNYDD O'R HARBWR A'R DYFROEDD CYSYLLTIEDIG** .......... **4**

*Angori* .......... 4

*Mordwyo* .......... 5

*Pysgota* .......... 6

*Parcio* .......... 6

*Ymdrochi a deifio* .......... 7

*Llifddorau* .......... 7

*Llithrfa* .......... 7

*Cyfyngiadau traethlin* .......... 7

*Gwastraff* .......... 8

*Diogelwch* .......... 8

*Diogeledd* .......... 8

*Dirymiad* .......... *9*

**Teitl a chychwyn**

Gellir cyfeirio at yr is-ddeddfau hyn fel Is-ddeddfau Harbwr Porthcawl 2020 a byddant yn dod i rym wedi i’r 28 diwrnod o’r dyddiad y cânt eu cadarnhau gan y Cyngor ddod i ben.

**Cymhwyso**

Bydd yr is-ddeddfau hyn yn berthnasol i bob rhan o Harbwr Porthcawl.

Mae’r is-ddeddfau hyn yn berthnasol i'r holl bersonau a chychod sy’n defnyddio’r harbwr neu sydd o fewn safle’r harbwr. Yn ogystal â hyn, mae’r is-ddeddfau’n berthnasol i bob ffordd o fewn safle’r harbwr o bryd i'w gilydd, ac eithrio ffyrdd cyhoeddus. Mae'r is-ddeddfau hefyd yn berthnasol i gychod pleser a gweithgareddau hamdden o fewn yr harbwr.

**Dehongliad**

Yn yr is-ddeddfau hyn, oni bai fod y cyd-destun yn mynnu fel arall, mae ystyr y geiriau neu ymadroddion canlynol fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Rheoliadau 1996 | yw Rheoliadau Llongau Masnach (Arwyddion Cyfyngder ac Atal Gwrthdrawiadau) 1996 (OS 1996/75); |
| Swyddog awdurdodedig y cwmni | yw unrhyw unigolyn sy'n gweithredu'n gyfreithlon ar ran y Cyngor; |
| Docfa | yw unrhyw fan o fewn yr harbwr lle y gall cwch orwedd yn briodol, boed wrth gei, wrth angorfa neu wrth angor; |
| Cyngor | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Rheoliadau Sylweddau Peryglus | yw Rheoliadau Sylweddau Peryglus mewn Ardaloedd Harbwr 1987 (OS 1987/37); |
| Dociau | yw basn dŵr caeedig gydag adeiledd artiffisial wedi'i adeiladu dros ddŵr lle gall teithwyr fynd ar gwch neu ddod oddi arno, neu lle gellir cludo nwyddau ar gwch neu oddi arno; |
| Harbwr | yw'r holl ddyfroedd llanw a'r holl ddyfroedd caeedig sydd o fewn yr ardal y mae'r is-ddeddfau hyn yn gymwys iddi, gan gynnwys ceiau a dociau cyfagos sy'n ategol i'r defnydd o'r dyfroedd hynny; |
| Harbwrfeistr | yw'r unigolyn a benodwyd yn harbwrfeistr, gan gynnwys ei ddirprwyon awdurdodedig, ei gynorthwywyr, ac unrhyw unigolyn arall a awdurdodwyd gan y Cyngor i weithredu yn y swyddogaeth honno; ac mae unrhyw ganiatâd neu gyfarwyddyd gan yr harbwrfeistr, oni bai fod yr is-ddeddf yn mynnu eu bod yn ysgrifenedig, yn cynnwys unrhyw awdurdod, caniatâd neu gyfarwyddyd a roddir ar lafar wyneb yn wyneb neu drwy gyfrwng radio; |
| Safle’r harbwr | yw'r dociau, ceiau, a'r holl waith, tir ac adeiladau eraill sydd yng ngofal y Cyngor ar hyn o bryd neu a gaiff eu defnyddio neu eu gweinyddu gan y Cyngor, ac a ddefnyddir at ddibenion yr harbwr neu mewn cysylltiad ag ef; |

| | |
|---|---|
| Meistr | pan gaiff ei ddefnyddio mewn perthynas ag unrhyw gwch, y mae'n golygu unrhyw unigolyn sydd ag awdurdod neu reolaeth dros y cwch am y tro; |
| Perchennog | pan gaiff ei ddefnyddio mewn perthynas â nwyddau, y mae'n cynnwys unrhyw draddodwr, traddodai, cludwr neu asiant ar gyfer gwerthu, derbyn, cadw, llwytho neu ddadlwytho, trin a chlirio'r nwyddau hynny, gan gynnwys unrhyw unigolyn arall sydd â gofal am y nwyddau a'i asiant mewn perthynas â hwy; a phan gaiff ei ddefnyddio mewn perthynas â chwch, mae'n cynnwys unrhyw ran-berchennog, brocer, siartrwr, asiant neu forgeisai sy'n meddu ar y cwch neu berson neu bersonau eraill sydd â'r hawl i feddu ar y cwch am y tro; a phan gaiff ei ddefnyddio mewn perthynas â cherbyd, mae'n cynnwys unrhyw ran-berchennog neu asiant neu berson sydd â gofal am y cerbyd am y tro; |
| Sianel fordwyo | Sianel fordwyadwy a ddefnyddir i fynd i mewn neu allan o'r harbwr; |
| Beic pedalau | yw beic fel y'i diffinnir yn adran 192 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988; |
| Bad pleser | yw unrhyw gwch a ddyluniwyd neu a addaswyd yn gyfan gwbl neu'n rhannol at ddibenion chwaraeon neu hamdden, gan gynnwys, heb gyfyngiad, fad dŵr personol a bwrdd hwylio; |
| Ffyrdd cyhoeddus | yw'r holl ffyrdd sydd ar hyn o bryd, neu a fydd yn y dyfodol, wedi'u neilltuo i'w defnyddio fel priffordd gyhoeddus a gaiff eu cynnwys ar ddyddiad yr is-ddeddfau hyn; |
| Cei | yw unrhyw gei, glanfa, pyst, llwyfan glanio neu adeiledd arall a ddefnyddir ar gyfer docio neu angori cychod, gan gynnwys unrhyw bier, pont, ffordd neu droedffordd sy'n union gyfagos ac sy'n rhoi mynediad iddo; |
| Ffordd | yw unrhyw ffordd, pier, glanfa, cei, pont neu waith arall neu unrhyw dir o fewn safle'r harbwr sy'n hygyrch i gerbydau; |
| Bwrdd hwylio | yw rafft gyda hwyl neu hwyliau a gynlluniwyd i gael ei gweithredu gan unigolyn neu unigolion sy'n sefyll yn unionsyth arno; |
| Cwch bach | yw unrhyw gwch sy'n llai na 24 metr o hyd; |
| Cerbyd | yw unrhyw gerbyd a yrrir yn fecanyddol, gan gynnwys, heb gyfyngiad, unrhyw un o'r cerbydau hynny y cyfeirir atynt yn adrannau 185, 186, 187 a 188 o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988, ond nid unrhyw gerbyd a ddiffinnir yn adran 189; |
| Cwch | yw llong, cwch, rafft o unrhyw ddisgrifiad, gan gynnwys badau nad ydynt yn dadleoli ac unrhyw beth arall a adeiladwyd neu a addaswyd ar gyfer arnofio ar ddŵr neu i gael ei roi mewn dŵr (boed yn barhaol neu dros dro) a cherbydau amffibaidd yn ystod y cyfnod y maent yn y dŵr. |

Yn yr is-ddeddfau hyn:

- ystyr yr ymadrodd “Rheolau'r Ffordd Fawr” yw'r ystyr a roddir yn adran 38(8) o Ddeddf Traffig Ffyrdd 1988;
- ystyr yr ymadrodd “Rheoliadau Gwrthdrawiad” yw Rheoliadau 1996 ac unrhyw reoliadau eraill a wneir yn unol ag adrannau 85 ac 86 o Ddeddf Llongau Masnach 1995;
- mae cyfeiriadau at is-ddeddf yn gyfeiriadau at baragraffau o'r is-ddeddfau hyn sydd wedi'u rhifo; ac
- mae cyfeiriadau at ran yn gyfeiriadau at unrhyw ran o’r is-ddeddfau hyn.

# IS-DDEDDFAU A WNAED O DAN DDARPARIAETHAU DEDDF MORGANNWG GANOL 1987 MEWN PERTHYNAS Â HARBWR PORTHCAWL

## RHAN I - RHEOLEIDDIO'R DEFNYDD O'R HARBWR A'R DYFROEDD CYSYLLTIEDIG

***Angori***

1 **Symudiadau cychod**

1.1 Rhaid i feistr cwch roi rhybudd rhesymol ymlaen llaw i'r harbwrfeistr os yw'r cwch wedi cyrraedd, yn gadael neu'n symud o fewn yr harbwr.

2 **Cychod i gael eu hangori a'u symud yn ôl cyfarwyddyd**

2.1 Bydd yr harbwrfeistr yn penderfynu ym mha drefn y caiff cychod fynd i mewn neu allan o'r harbwr a bydd meistr pob cwch yn yr harbwr yn angori’r cwch, neu'n ei osod a’i angori, yn unol â chyfarwyddyd yr harbwrfeistr, a bydd yn symud y cwch hwnnw i neu o unrhyw angorfa o fewn yr harbwr yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau y gallai'r harbwrfeistr eu rhoi o bryd i'w gilydd.

3 **Darparu ffenders priodol**

3.1 Rhaid i feistr a pherchennog cwch sicrhau bod ganddo ddigon o ffenders o fath a fyddai’n arnofio mewn dŵr ac o faint sy’n briodol i’r cwch pan fydd yn cael ei angori a'i gadw mewn harbwr, neu pan fydd yn ei adael, er mwyn atal difrod i gychod eraill ac eiddo'r Cyngor.

4 **Cychod i gael eu cadw mewn cyflwr symudol**

4.1 Ni chaiff meistr cwch, ac eithrio pan fo’n anochel bod ei gwch yn gorwedd ar y ddaear, gymryd unrhyw gamau i wneud ei gwch yn ansymudadwy heb hysbysu’r harbwrfeistr yn gyntaf, a dylai'r meistr gadw ei gwch wedi'i lwytho a'i falastio bob amser ac yn y fath gyflwr fel bod modd ei symud yn ddiogel.

4.2 Pan na fydd modd symud cwch yn ddiogel ar unrhyw adeg drwy gyfrwng ei beirianwaith gyrru ei hun, rhaid i'r meistr neu'r perchennog, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, hysbysu'r harbwrfeistr a rhoi unrhyw wybodaeth bellach iddo a allai fod ei hangen yn rhesymol.

5 **Mynediad ar draws byrddau**

5.1 Os bydd yr harbwrfeistr neu swyddog awdurdodedig arall y cwmni yn gofyn iddo wneud hynny, rhaid i feistr cwch sydd wrth gei neu wrth ymyl unrhyw gwch arall sydd eisoes wedi'i angori yn yr harbwr roi mynediad rhydd ar draws bwrdd ei gwch i bersonau a nwyddau i ac o gychod sydd wedi'u hangori yn ymyl ei gwch.

***Mordwyo***

6 **Cychod i fordwyo yn ofalus**

Rhaid i'r meistr fordwyo ei gwch gyda'r gofal a'r cyflymder ac mewn modd na fydd yn peryglu bywydau nac yn achosi anaf i bersonau neu ddifrod i eiddo ac na fydd yn rhwystro neu'n rhagfarnu mordwyo, symud, llwytho neu ddadlwytho cychod neu achosi difrod diangen i angorfeydd neu eiddo arall.

7 **Cyflymder y cychod**

7.1 O fewn y dociau, ac eithrio gyda chaniatâd yr harbwrfeistr, ni chaiff meistr cwch beri na chaniatáu i'r cwch fynd yn gyflymach na 3 not.

7.2 Rhaid i feistr unrhyw gwch y rhoddir caniatâd iddo gan yr harbwrfeistr i fynd dros derfyn cyflymder gydymffurfio ag unrhyw amodau sydd ynghlwm wrth y caniatâd hwnnw bob amser. Rhaid i'r meistr neu'r gweithredwr a gaiff ei gyhuddo fel diffyniad brofi bod y cwch yn rhan o argyfwng neu ymgyrch achub ar y pryd o dan amgylchiadau lle byddai cadw at y terfyn cyflymder yn debygol o fod wedi rhwystro’r defnydd o’r cwch at y diben hwnnw.

8 **Ni ddylid clymu cychod i gynorthwywyr mordwyo**

8.1 Ni chaiff meistr cwch glymu ei gwch i unrhyw fwi, goleufa neu farc a ddefnyddir at ddibenion mordwyo na'i roi i orwedd yn eu herbyn.

9 **Hysbysiad o wrthdrawiadau ac ati**

Rhaid i feistr cwch sydd:

9.1 wedi'i ddifrodi neu wedi achosi difrod mewn gwrthdrawiad ag unrhyw gwch, bwi, goleufa neu farc a ddefnyddir at ddibenion mordwyo neu unrhyw eiddo arall; neu

9.2 wedi suddo neu wedi ei ddaearu neu wedi mynd yn sownd yn ardal yr harbwr neu'r dynesfeydd ato; neu

9.3 oherwydd damwain, tân, diffyg neu fel arall mewn cyflwr sy'n ei rwystro rhag cael ei fordwyo'n ddiogel neu'n peri perygl i gychod neu eiddo eraill;

cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol, hysbysu’r harbwrfeistr am y digwyddiad a, chyn gynted ag y bo’n ymarferol wedi hynny, ddarparu’r manylion llawn yn ysgrifenedig i’r harbwrfeistr a, phan fo’r difrod yn effeithio neu’n debygol o effeithio ar ei addasrwydd i’r môr, ni chaiff y meistr symud y cwch ac eithrio i'w angori yn ddiogel, ac eithrio gyda chaniatâd ac yn unol â chyfarwyddiadau'r harbwrfeistr.

10 **Mordwyo o dan ddylanwad diod neu gyffuriau**

10.1 Ni chaiff neb fod yng ngofal cwch, ei reoli na'i lywio, nac ymgymryd ag unrhyw weithgaredd sydd neu a all fod yn berthnasol i rediad diogel cwch pan nad yw mewn cyflwr addas i wneud hynny oherwydd diod neu gyffuriau, ac ni ddylai fod â'r cyfrifoldeb hwnnw.

10.2 Ni ddylai meistr cwch beri na chaniatáu i unrhyw unigolyn fordwyo neu fod â gofal neu ymgymryd ag unrhyw weithgaredd sydd neu a allai fod yn berthnasol i rediad diogel cwch os yw'r unigolyn hwnnw mewn cyflwr anaddas oherwydd diod neu gyffuriau, ac ni ddylai fod â'r cyfrifoldeb hwnnw nac ymgymryd â'r gweithgaredd hwnnw.

***Pysgota***

11 **Pysgota mewn dociau**

11.1 Ni chaiff neb bysgota yn y dociau.

11.2 Ni chaiff neb daflu unrhyw sgil-ddalfa neu bysgod marw i'r dŵr o fewn terfynau'r harbwr.

12 **Pysgota ar y morglawdd**

12.1 Rhaid i bob unigolyn symud ei leiniau pysgota o lwybr unrhyw gwch sydd yn mynd i mewn neu'n gadael yr harbwr.

***Parcio***

13 **Cydymffurfio â Rheolau'r Ffordd Fawr**

13.1 Yn amodol ar unrhyw ddarpariaethau sy'n gwrthdaro yn yr is-ddeddfau hyn, bydd Rheolau'r Ffordd Fawr yn berthnasol i bawb o fewn safle'r harbwr.

14 **Parcio**

14.1 Ni chaiff neb barcio unrhyw gerbyd yn ardal yr harbwr ac eithrio yn y mannau a ganiateir ar gyfer parcio, fel y'u dynodir o bryd i'w gilydd gan yr harbwrfeistr.

14.2 Rhaid arddangos trwyddedau yn glir wrth barcio yn y mannau hyn.

15 **Rhwystr a pherygl i bersonau neu eiddo**

15.1 Ni chaiff unrhyw unigolyn sy’n gyfrifol am gerbyd achosi na chaniatáu i’r cerbyd barhau yn llonydd ar ffordd yn y fath leoliad neu yn y fath gyflwr neu o dan y fath amgylchiadau sy’n debygol:

i. o achosi perygl i bobl eraill sy'n defnyddio'r ffordd; neu

ii. o rwystro'r defnydd o'r ffordd gyfan neu unrhyw ran ohoni.

*Ymdrochi a deifio*

16 **Nofio ac ymdrochi'n ddiogel**

16.1 Ni chaiff neb nofio nac ymdrochi yn y dociau, ac eithrio gyda chaniatâd yr harbwrfeistr.

16.2 Gall nofwyr groesi'r sianel wrth y fynedfa i'r harbwr ond rhaid iddynt wneud hynny gan ddefnyddio'r llwybr byrraf posibl.

16.3 Ni chaiff nofwyr groesi sianel fordwyo gul os yw'r croesi yn rhwystro cwch rhag mynd.

17 **Gweithrediadau deifio (gyda chymorth anadlol)**

17.1 Ni chaniateir deifio o fewn yr harbwr heb ganiatâd ymlaen llaw gan yr harbwrfeistr.

17.2 Lle bo'r harbwrfeistr wedi cymeradwyo unrhyw ddeifio, rhaid i bawb sy'n cymryd rhan gydymffurfio â Rheoliadau Deifio yn y Gwaith 1997 ac unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan yr harbwrfeistr.

*Llifddorau*

18 **Ymyrraeth ag offer, peiriannau doc, llifddorau ac ati**

Ni chaiff neb, heb awdurdod cyfreithlon:

18.1 ddefnyddio, gweithio, symud neu ymyrryd ag unrhyw offer, peiriannau na chyfarpar doc ar safle'r harbwr; nac

18.2 agor, tynnu neu gau unrhyw lifddor, padl bren neu bont unrhyw fasn doc sydd o dan reolaeth y Cyngor.

19 **Mynediad i lifddorau**

19.1 Ni chaiff neb fynd i mewn nac aros na cheisio mynd drwy unrhyw lifddor sydd o dan reolaeth y Cyngor tra'i bod yn symud, na mynd dros unrhyw rwystr neu giât a osodwyd cyn neu ar draws unrhyw lifddor o’r fath cyn iddi gael ei hagor, na chamu ar y llifddor cyn i'r rhwystr neu'r giatiau gael eu symud gan swyddog neu was i'r cwmni sydd ar ddyletswydd wrth y llifddor, ac ni chaiff neb heblaw swyddog neu was o'r fath symud, datod nac ymyrryd ag unrhyw rwystr neu giât o'r fath.

*Llithrfa*

20 **Defnydd**

20.1 Wrth ddefnyddio'r llithrfa, bydd meistr y cwch yn sicrhau:

i. bod y cwch a'r injan yn addas i'r môr
ii. bod yswiriant morol digonol ar waith
iii. bod trefniadau wedi eu gwneud gyda'r harbwrfeistr neu staff penodedig i ganiatáu lansio neu adfer.

20.2 Rhaid cadw'r llithrfa'n glir. Ni ddylid gadael cerbydau ac ôl-gerbydau ar dir yr harbwr heb oruchwyliaeth.

*Cyfyngiadau traethlin*

21 Ac eithrio grwpiau achub bywyd achrededig neu wasanaethau achub penodedig, ni chaiff unrhyw gychod neu feistri cychod fordwyo o fewn 50 metr i draethlin traeth Sandy Bay.

*Gwastraff*

22 **Gwaredu sbwriel, ymyrryd â biniau sbwriel ac ati**

22.1 Ni chaiff neb:

i. adael, gwaredu neu ollwng unrhyw ddeunyddiau, nwyddau, dodrefn, peiriannau neu eitemau o unrhyw fath neu unrhyw sbwriel neu wastraff mewn unrhyw fan o fewn safle'r harbwr nad yw wedi'i benodi'n benodol gan y Cyngor i'r diben hwnnw; nac

ii. ymyrryd â chynnwys neu symud unrhyw beth o unrhyw gynhwysydd, bin neu le a benodwyd neu a ddefnyddir am y tro ar gyfer gwaredu neu storio unrhyw sbwriel, gwastraff neu eitemau eraill a gaiff eu taflu.

23 **Gwaredu sbwriel a gwastraff o gwch**

23.1 Bydd meistr y llong yn sicrhau:

i. mai dim ond papur, deunydd pacio a gwastraff bwyd a gaiff eu rhoi yn y cynwysyddion dan orchudd a ddarperir at y diben hwnnw ar y cei gan y Cyngor;

ii. bod y cynwysyddion yn cael eu cadw ar gau pan nad ydynt yn cael eu defnyddio; a

iii. bod yr ardal o amgylch y cynwysyddion yn cael ei chadw'n lân.

23.2 Ni chaiff unrhyw unigolyn, ac eithrio aelod o griw cwch neu unigolyn a gyflogir neu a awdurdodwyd gan feistr cwch, waredu unrhyw eitem o unrhyw fath mewn unrhyw gynhwysydd, bin neu gynhwysydd arall a ddarperir at ddefnydd cwch.

24 **Pwmpio dŵr gwaelodion cwch**

24.1 Ni chaniateir i feistr cwch bwmpio dŵr gwaelodion o’r cwch i’r dociau oni bai ei fod wedi sicrhau caniatâd ysgrifenedig yr harbwrfeistr yn gyntaf, neu oni bai fod angen gwneud hynny i atal ei gwch rhag suddo.

*Diogelwch*

25 **Ymyrraeth ag offer diffodd tân ac achub bywydau**

25.1 Ac eithrio gyda chaniatâd swyddog awdurdodedig y Cyngor, ni chaiff neb ddefnyddio, rhwystro, symud nac ymyrryd ag unrhyw offer diffodd tân neu unrhyw offer achub bywydau, ac eithrio at ddiben ymladd tân neu achub bywydau.

26 **Tanau a goleuadau noeth**

26.1 Ni chaiff neb gynnau, na cheisio cynnau, na defnyddio unrhyw dân agored neu fflam noeth o fewn safle’r harbwr, ac eithrio gyda chaniatâd swyddog awdurdodedig y Cyngor ac yn ddarostyngedig i amodau a bennir gan y Cyngor o bryd i’w gilydd.

*Diogeledd*

27 **Mynediad heb awdurdod a thresmasu**

27.1 Ni chaiff neb fynd i mewn na gadael na cheisio mynd i mewn neu adael safle'r harbwr nac unrhyw ardal neu adeilad o fewn safle'r harbwr ac eithrio drwy fynedfa neu allanfa gymeradwy.

28 **Difrodi neu ddifwyno’r safle**

28.1 Ni chaiff neb ddifrodi neu ddifwyno unrhyw ran o safle'r harbwr yn fwriadol nac unrhyw ran o eiddo'r Cyngor.

29 **Difwyno hysbysiadau ac ati**

29.1 Ni chaiff neb ddinistrio na difwyno unrhyw hysbysiad, bil neu hysbyslen awdurdodedig.

30 **Gosod hysbysiadau ac ati**

30.1 Ni chaiff neb, heb gymeradwyaeth flaenorol gan swyddog awdurdodedig y Cyngor, osod unrhyw hysbysiad, bil neu hysbyslen na gosod unrhyw hysbysiad, bil, taflen neu hysbyslen yn unrhyw le o fewn safle'r harbwr.

31 **Rhwystro swyddogion neu weithwyr y Cyngor**

31.1 Ni chaiff neb rwystro:

**(i)** unrhyw swyddog o'r Cyngor wrth iddo gyflawni ei ddyletswyddau'n briodol;

**(ii)** unrhyw unigolyn sy’n cyflawni gweithred sy’n angenrheidiol i gyflawni unrhyw gontract gyda’r Cyngor yn briodol: nac

**(iii)** unrhyw unigolyn arall sy'n gwneud defnydd priodol o'r harbwr.

32 **Symud troseddwyr ymaith**

32.1 Gall unrhyw un sy’n troseddu yn erbyn unrhyw un o’r is-ddeddfau hyn gael ei symud ymaith o’r harbwr gan swyddog o’r Cyngor.

33 ***Cosb***

33.1 Mae unrhyw unigolyn sy'n troseddu yn erbyn unrhyw un o'r is-ddeddfau hyn yn atebol ar euogfarn ddiannod i ddirwy heb fod yn uwch na Lefel 2 ar y Raddfa Safonol.